DP 88/99-03

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

At: Gyfarwyddwyr Addysg, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru; Cymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi

Cc: Cyrff a restrir dros y ddalen

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Eich cyf / Your Ref
Ein cyf / Our Ref

Dyddiad / Date 01 Chwefror 01

Annwyl Gyfaill

**DARPARU LLAETH YSGOL I DDISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 1**

**Rhagarweiniad**

1. Diben y llythyr hwn yw amlinellu'r trefniadau i ddarparu llaeth yn rhad ac am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r hysbysiad hwn yn gwireddu'r addewid a roddwyd ynglyn â llaeth ysgol i ddisgyblion iau yn nogfen y Cynulliad Cenedlaethol "Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru" a gyhoeddwyd ar 6 Hydref 2000. Daw'r canllawiau yn y llythyr hwn i rym ar unwaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cymwys yn mynd â Chynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol presennol y GE (y Cynllun) gam ymhellach.

2. At ddibenion y canllawiau hyn, mae "disgyblion cymwys" yn golygu disgyblion sy'n cael addysg gynradd mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion nas cynhelir ac ysgolion annibynnol, ar wahân i'r rheini sydd yng nghyfnod allweddol 2 neu'n cael addysg feithrin. Disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 fydd yn elwa gan mwyaf, ond bydd eraill yn yr un blynyddoedd academaidd yn cael eu cynnwys. Mae'r cyfeiriadau at AALlau hefyd yn cynnwys Cymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi.

**Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE**

3. Mae'r Cynllun yn orfodol i bob Aelod Wladwriaeth er mai o'u gwirfodd y mae Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ac ysgolion yn cymryd rhan. O fewn Prydain Fawr, dim ond i ddisgyblion yn y sector cynradd a meithrin y mae'r Cynllun yn berthnasol ac fe'i gweinyddir gan y Bwrdd Ymyrraeth (BY). Ar lefel Cymru-gyfan, amcangyfrif bod tua 20 y cant o ddisgyblion cynradd yn cael llaeth yn yr ysgol o dan y Cynllun. Ar hyn o bryd mae 21 o'r 22 AALl wedi

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Tel: 029 2082 Est / Ext:
GTN: 1208
Ffacs / Fax: 02920 82
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:

cofrestru gyda'r BY at ddibenion y Cynllun presennol. AALl Sir Fynwy yw'r eithriad.

4. Mae'r Cynllun ar hyn o bryd wedi'i seilio ar bris targed sefydlog o 19.9c y litr am laeth cyflawn. Tan fis Ionawr 2001, roedd y cymhorthdal a delid o dan y Cynllun yn 95 y cant o'r pris targed am laeth cyflawn. O 1 Ionawr 2001, seilir y cymhorthdal a delir gan yr UE ar 75 y cant o'r pris targed sefydlog am laeth cyflawn h.y. tua 14.9c y litr neu oddeutu 2.8c am un rhan o dair o beint.

5. Gan ddod i rym o 1 Ionawr 2001, gostyngir gwerth y cymhorthdal a delir tuag at y llaeth a gyflenwir **ar gyfer POB plentyn cynradd a meithrin yr hawlir cymhorthdal amdano. O'r dyddiad hwnnw, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu cost y gostyngiad yng ngwerth y cymhorthdal o dan y Cynllun yn llawn.** Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiad i dalu cost llaeth ysgol ar gyfer disgyblion cymwys.

6. Effaith y Cynllun yw gostwng cost llaeth a roddir yn yr ysgol i blant o oed cynradd ac felly mae'n lleihau'r cyfraniad sy'n ofynnol gan rieni. O dan y Cynllun, ni ofynnir i rieni ar gymhorthdal incwm gyfrannu tuag at gost llaeth yn yr ysgol. Ysgwyddir y gost hon gan yr AALlau. I blant yng nghyfnod meithrin eu haddysg, darperir llaeth yn rhad ac am ddim o dan y Cynllun Bwyd Lles sy'n gynllun gwahanol a gynhelir gan yr Adran Iechyd. Telir y gwahaniaeth rhwng cost y llaeth a'r cymhorthdal a delir gan y GE tuag ato gan yr Uned Ad-dalu Bwyd Lles.

7. O dan y manylion gweithredol y cytunwyd arnynt gyda'r GE, rhaid i AALlau gofrestru gyda'r BY er mwyn cymryd rhan yn y cynllun a chytuno i fodloni gofynion meini prawf y BY o ran pwy sy'n gymwys ac ad-dalu. Ni all ysgolion unigol na grwpiau o ysgolion wneud cais am gofrestru gyda'r BY ar wahân.

## Darparu Llaeth Ysgol Am Ddim i Ddisgyblion Cymwys

### Disgyblion cymwys

8. Y disgyblion sy'n gymwys i gael llaeth ysgol am ddim o dan drefniant y Cynulliad Cenedlaethol yw disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd ac eithrio'r rheini yng nghyfnod allweddol 2 neu'r rheini sy'n derbyn addysg feithrin. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod plentyn yn gymwys drwy gydol y flwyddyn academaidd pryd y caiff ei ben-blwydd yn 5 oed ac mae'n parhau i fod yn gymwys hyd nes iddo ddod i ddiwedd ei addysg cyfnod allweddol 1.

9. O dan ddarpariaethau Deddf Addysg 1996, mae llaeth ysgol i ddisgyblion cymwys yn dal i fod yn ddarostyngedig i dâl a godir ar riant neu warcheidwad y disgybl dan sylw. Effaith nawdd y Cynulliad Cenedlaethol yw talu'r gost a fyddai fel arall yn cael ei cheisio gan rieni neu warcheidwaid fel na fyddant, yn ymarferol, yn talu o gwbl.

### Diffiniad o laeth ysgol i ddisgyblion cymwys

10. O dan y trefniadau a gyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r ddarpariaeth llaeth ysgol yn cynnwys mesur bob dydd o laeth cyflawn plaen neu laeth cyflawn â blas wedi'i ychwanegu neu laeth hanner sgim plaen neu laeth

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

hanner sgim â blas wedi'i ychwanegu. Rhaid i'r cynhyrchion hyn fod:

- wedi'u gwneud o laeth gwartheg
- wedi'u cynhyrchu o fewn yr Undeb Ewropeaidd
- wedi'u prynu yn y DU
- wedi'u dosbarthu i blant ysgol cymwys yn ystod y tymor neu'r cyfnod y mae'r hawliad yn cyfeirio ato
- y mesur mwyaf y gellir talu cymhorthdal tuag ato yw 0.25 litr y disgybl fesul diwrnod ysgol

11. Mae llaeth gwartheg sydd â llai o lactos ynddo yn gymwys o dan y Cynllun.

**Nawdd Ariannol y Cynulliad Cenedlaethol**

12. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu'r gost sydd ynghlwm wrth gyflenwi llaeth i'r ysgol ar gyfer disgyblion cymwys, llai'r elfen gymhorthdal a ddarperir o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE.

13. Nid yw llaeth a ddarperir yn yr ysgol i'w ddefnyddio fel un o'r cynhwysion wrth baratoi prydau neu elfennau o brydau yn gymwys i gael nawdd o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE. Rydym yn ymchwilio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i ganfod a fyddai disgyblion cymwys sy'n manteisio ar laeth a ddefnyddir mewn cynlluniau brecwast yn yr ysgol – llaeth ar rawnfwyd yng nghyswllt "clybiau brecwast" – yn dod o fewn cwmpas Cynllun y GE a, thrwy hynny, yn denu nawdd ariannol y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y BY yn ysgrifennu at hawlwyr pan fyd y Comisiwn wedi dod i benderfyniad.

**Fflworid (Fflworin)**

14. Gallai fod yna fanteision i iechyd geneuol pobl ifanc Cymru o ychwanegu Fflworid at laeth ysgol. Mae pedwar cynllun fflworideiddio llaeth yn cael eu treialu yn Lloegr ar hyn o bryd gan gyrraedd tua 17,000 o blant ysgol. Mae'r Rheoliad Ewropeaidd cyfredol yn caniatáu i Aelod Wladwriaethau roi caniatâd i ychwanegu hyd at 5mg o fflworin i bob kilogram o'r cynnyrch y cytunwyd iddo.

**Trefniadau Gweinyddol**

15. Mae rheolau a rheoliadau Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE, a'r gofynion a bennwyd gan y BY, yn berthnasol wrth ddarparu llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys. Mae gwybodaeth am Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE wedi'i chynnwys yng Nghanllawiau'r BY (IM(L)20), a chedwir copïau ohonynt gan yr AALlau. Mae manylion bras y Cynllun i'w gweld yn Atodiad A.

16. Fel y dywedwyd ym mharagraff 4, mae 21 AALl yng Nghymru wedi cofrestru gyda'r BY o dan Gynllun y GE (Atodiad B) ac maent yn cyflwyno hawliadau yn rheolaidd. I'r ysgolion hynny sydd eisoes yn cymryd rhan yn y Cynllun,

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

ychydig iawn o newid a geir mewn perthynas â disgyblion cymwys yn manteisio ar laeth ysgol am ddim. Bydd AALlau yn parhau i drefnu bod cyflenwadau llaeth, a chynnyrch arall a dderbynnir o dan Gynllun y GE, yn cael eu danfon i ysgolion unigol, a bod ffurflenni hawlio tâl yn cael eu cyflwyno i'r BY. Y gofyniad pennaf fydd bod angen i ysgolion nodi'r disgyblion cymwys hynny sy'n elwa o ddarpariaeth llaeth ysgol gymwys am ddim ar wahân i'r disgyblion meithrin a chynradd hynny sy'n cael llaeth y rhoddir cymhorthdal tuag ato. Mae'r BY yn adolygu llenyddiaeth y Cynllun a'r broses hawlio er mwyn cymryd y gofyniad hwn i ystyriaeth.

17. Bydd angen i AALlau sicrhau mai dim ond am y llaeth a ddosbarthwyd mewn gwirionedd i ddisgyblion cymwys yn ystod y cyfnod hawlio dan sylw y byddir yn hawlio darpariaeth llaeth ysgol gymwys am ddim.

18. Bydd AALlau sydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer Cynllun y GE wedi derbyn llythyr gan y BY, dyddiedig 7 Rhagfyr 2000 (copi ynghlwm yn Atodiad C), yn eu hysbysu am y prif newidiadau i'r Cynllun. Caiff y gost o brynu llaeth ar gyfer disgyblion cymwys ei had-dalu i awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o broses y BY i wneud taliadau o dan Gynllun yr UE h.y. ar sail hawliadau a gyflwynir gan AALlau fesul tymor ar yn ôl.

**Ysgolion Newydd a Fydd yn Cymryd Rhan**

19. At ddibenion Cynllun y GE, rhaid i bob hawlydd fod wedi cofrestru gyda'r BY ac wedi'i gymeradwyo ganddo. Unwaith y byddant wedi cofrestru ac wedi'u cymeradwyo, gall hawlwyr, os ydynt yn dymuno, ddewis cyflenwi dim ond llaeth am ddim i ddisgyblion cymwys o dan ddarpariaeth y Cynulliad Cenedlaethol (gweler Atodiad A am wybodaeth am laeth am ddim i blant meithrin o dan y Cynllun Bwyd Lles).

**Ymgynghori ag Ysgolion ac â Rhieni**

20. Mae angen i AALlau ymgynghori â chyrff llywodraethol a phenaethiaid ysgolion ynghylch y trefniadau i ddarparu llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys a gofyn iddynt benderfynu pa un a yw'r ysgol am gymryd rhan yn y trefniadau newydd. Mae angen i'r ysgol, yn ei thro, ddweud wrth rieni am y trefniadau newydd a gofyn iddynt a ydynt am i'w plentyn dderbyn llaeth ysgol am ddim, gan danlinellu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol na fydd gofyn am unrhyw gyfraniad gan rieni.

21. Mae llythyrau enghreifftiol i'w hanfon at ysgolion ac i ysgolion eu hanfon at rieni wedi'u cynnwys yn Atodiad D i'r perwyl hwn. Y pwynt allweddol yw na fydd mwyach angen y cyfraniad gan rieni a ddisgwylir fel arfer lle bo ysgolion yn cymryd rhan yng Nghynllun y GE, o dan drefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu nawdd ariannol tuag at gost llaeth ysgol i ddisgyblion cymwys.

22. Wrth roi cyngor i ysgolion ac i rieni disgyblion cymwys, rhaid i AALlau ac ysgolion gadw mewn cof y gallai fod gan rai plant alergedd i laeth gwartheg neu efallai nad yw eu corff yn gallu dygymod â lactos. Wrth ymgynghori â

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

rhieni, mae angen i ysgolion ganfod a yw llaeth yn peri ymateb niweidiol mewn disgyblion unigol.

**Y Camau Nesaf er mwyn Manteisio ar Ddarparu Llaeth i blant cymwys**

23. Gan ddod i rym ar unwaith, nid oes gofyn i rieni/gwarcheidwaid disgyblion cymwys gyfrannu tuag at gost llaeth cymwys yn yr ysgol sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y llythyr hwn. Dylai AALlau gynnwys cost y llaeth hwn mewn hawliadau a gyflwynir i'r BY.

24. Bydd angen i ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan yng Nghynllun Cymhorthdal Llaeth y GE hysbysu eu AALl o unrhyw newidiadau yn nifer y disgyblion sy'n cael llaeth.

25. Bydd AALl neu ysgolion sy'n ymuno â'r cynllun o'r newydd am ymgyfarwyddo â gofynion Cynllun y GE fel y'u nodir yng nghanllawiau'r BY IM(L)20. Gellir cael copïau ychwanegol gan y BY.

**Gwariant cymwys at ddibenion darparu llaeth am ddim i ddisgyblion cymwys**

26. Ymdrinnir â'r mater hwn yn llythyr y Bwrdd Ymyrraeth ar 7 Rhagfyr 2000 (Atodiad C) (nid yw eu canllawiau (IM(L)20) wedi'u diweddaru eto i adlewyrchu newidiadau i reoliad y GE a ddeuai i rym o 1 Ionawr 2001). Gall AALlau a hawlwyr eraill hawlio ad-daliad o'r costau sy'n deillio o ddarparu llaeth i ddisgyblion cymwys fel a nodir isod.

**Cost llaeth a gyflenwir i'r ysgol**

27. O dan Gynllun presennol y GE, ceir cryn wahaniaeth rhwng AALlau a'i gilydd ac oddi mewn i AALlau yng nghost y llaeth a gyflenwir i ysgolion ac, felly, yn lefel y cyfraniad a geisir gan rieni. **Seilir yr ad-daliadau gogyfer â'r costau a wynebwyd er darparu llaeth i ddisgyblion cymwys ar wir gost cyflenwi'r llaeth i'r ysgol, llai cymhorthdal y GE.**

**28.** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn y bydd prisiau'n dal i amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, mae yna le i leihau amrediad y gwahaniaeth mewn prisiau a geir ar hyn o bryd. Wrth negodi a dyfarnu contractau i brynu llaeth ar gyfer disgyblion cymwys (ac mae hyn yn berthnasol hefyd i'r trefniadau cyflenwi mewn perthynas â Chynllun ehangach y GE), mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1999 i awdurdodau lleol ystyried y gwerth gorau. Ceir canllawiau perthnasol yng Nghylchlythyr 14/2000 y Cynulliad Cenedlaethol.

**29.** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn disgwyl y bydd AALlau yn gweithio'n agos gyda'i gilydd pa le bynnag y mae hynny'n ymarferol i negodi'r pris llaeth gorau posibl i'w hysgolion. Dylid annog cyflenwyr hefyd i ddarparu help ymarferol i ysgolion - er enghraifft, darparu unedau rheweiddio. Bydd angen i hawliadau a gyflwynir i'r BY i'w talu ddangos ar wahân yr union gostau sy'n berthnasol i ddisgyblion cymwys. Bydd y BY yn cysylltu â hawlwyr ynglyn â'r trefniadau

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

manwl.

30. Mae Cynllun y GE yn caniatáu cynnwys unrhyw orbenion rhesymol a wynebwyd mewn gwirionedd ac o reidrwydd yng nghyswllt darparu llaeth/cynnyrch llaeth o dan y Cynllun yn y pris a godir ar rieni am laeth. Dim ond yn achos disgyblion cymwys y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu taliadau ychwanegol gan y BY gogyfer â'r costau hyn. Felly, caiff AALlau/hawlwyr hawlio 3c fesul mesur o laeth ar gyfer disgyblion cymwys sy'n dod o fewn y cynllun a ariannir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

31. Fel y nodwyd yn gynharach, bwriad y Cynulliad Cenedlaethol yw darparu "llaeth am ddim" ac mae o'r farn bod ei becyn cymorth (h.y. costau ychwanegol a gweddilliol) yn ddigonol i alluogi AALlau i ddarparu llaeth yn rhad ac am ddim i rieni disgyblion cymwys. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd o'r farn y gall AALlau roi'r trefniadau hyn i ddarparu llaeth am ddim ar waith o fewn y paramedrau hyn.

32. **Nid oes rhaid hawlio am gostau gorbenion**. Lle'r hawlir costau gorbenion, rhaid i'r hawlwyr fod â thystiolaeth ategol yn dangos sut y cyfrifwyd y gost fesul mesur, a rhaid i'r dystiolaeth honno fod ar gael i'r Bwrdd Ymyrraeth.

**Er enghraifft**

Nifer y disgyblion cymwys sy'n cael llaeth: 5,000

Nifer y diwrnodau ysgol mewn blwyddyn academaidd: 190

Cost llaeth fesul mesur: 11c ]
] **Cost net fesul mesur (yn fras)**
7c
Cymhorthdal y GE fesul mesur: tua 4c ]

Cyfraniad at gostau gorbenion (lle'r hawlir hwy) 3c

**Felly:**

5,000 (disgybl) x 190 (diwrnod) = 950,000 mesur bob blwyddyn

950,000 (mesur) x 7c (cost net fesul mesur) = £66,500 (a)

**Lle'r hawlir costau gorbenion, byddai:**

950,000 x 3c = £28,500 (b) ychwanegol yn cael ei dalu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy daliad a ad-delir gan y BY.

33. DS. Wrth gyflwyno eu hawliad cyntaf am laeth am ddim, **lle bo hwnnw'n cynnwys costau gorbenion**, gofynnir i hawlwyr ddarparu costiadau manwl i'r BY i ategu'r cais am orbenion.

**Cyngor a Chanllawiau Pellach**

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

34. Gellir cael gwybodaeth bellach am Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE, a sut mae manteisio arno, gan y Bwrdd Ymyrraeth yn y:

**School Milk Subsidy Scheme Section**
**Intervention Board**
**PO Box 69**
**Reading**
**RG1 3YD. (ffôn: 0118 968 7555; ffacs: 0118 959 0514)**

35. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ariannu dau Hwylusydd Llaeth Ysgol fel rhan o'r Prosiect Ymchwil Llaeth Ysgol i weithio gydag awdurdodau addysg lleol ac ysgolion cynradd ledled Cymru, i'w hannog i ddarparu llaeth i'w disgyblion. Dylai ysgolion neu awdurdodau lleol gysylltu â Julie Davies (sy'n ymdrin â De Cymru – ffôn 01656 767293; ebost julie.davies@schoolmilk.co.uk) neu Helen Webber (sy'n ymdrin â Gogledd Cymru – ffôn 01248 853242: ebost helen.webber@schoolmilk.co.uk) i gael mwy o wybodaeth.

36. Mae nifer o laethdai ar draws Cymru hefyd yn ymwneud â Chynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE. Y prif rai yw Associated Co-operative Creameries (Caerdydd), Central (Swydd Amwythig), Craig's (Dinbych-y-pysgod), Express (Lerpwl), Golden Vale (Pen-y-bont ar Ogwr), Newtown Dairies, Hufenfa De Arfon (Gwynedd) ac Unigate (Casnewydd).

**Maeth a Diogelwch Bwyd**

37. Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch ynglyn ag agweddau maeth yfed llaeth neu ddiogelwch bwyd, cysylltwch â:

**Mr Nick Carter**
**Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru**
**Llawr 1af**
**Southgate House**
**Wood Street**
**Caerdydd**
**CF10 1EW**

**Ffôn: 029 2067 8999**
**Ffacs; 029 2067 8918**
**e.bost: Nick.Carter@foodstandards.gsi.gov.uk**

38. I gael mwy o wybodaeth am ddefnyddio llaeth sydd â llai o fraster ynddo, cysylltwch â:

**Jane Sorton Davies**
**Ffyrdd o Fyw (HP4)**
**Yr Is-adran Hybu Iechyd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

**Ffôn: 029 2082 3180**
**Ffacs: 029 2082 5072**
**e.bost: Jane.Sorton-Davies@wales.gsi.gov.uk**

39. Mae copïau o'r llythyr hwn yn cael eu hanfon hefyd at y rheini ar y rhestr sydd ynghlwm, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Rory O'Sullivan**
**Pennaeth, Yr Is-adran Polisi Amaethyddol**

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

## Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE

Mae gan Aelod Wladwriaethau ddisgresiwn pa un i ddarparu cymorth gwladol. Mae'n ofynnol iddynt gynnig rhai cynhyrchion fel rhan o'u cynllun i gyflwyno cymorth neu gymhorthdal y Gymuned. Yn y DU, y cynnyrch yw llaeth cyflawn plaen neu laeth cyflawn â blas wedi'i ychwanegu, llaeth hanner sgim plaen neu laeth hanner sgim â blas wedi'i ychwanegu, iogwrt plaen wedi'i wneud o laeth cyflawn ac (o 1 Ionawr 2001) iogwrt plaen wedi'i wneud o laeth hanner sgim, i'w darparu i ddisgyblion mewn ysgolion meithrin a chynradd. Mae gan Aelod Wladwriaethau y dewis hefyd o roi cymhorthdal tuag at gaws ym mhob ysgol, llaeth yfed, iogwrt a chaws mewn ysgolion uwchradd a llaeth a chynnyrch llaeth a ddefnyddir i baratoi prydau ysgol – llaeth arlwyo.

Yn y DU, dim ond ar elfennau gorfodol y cynllun y darperir y cymhorthdal, h.y. llaeth (plaen ac â blas wedi'i ychwanegu) a llaeth iogwrt mewn ysgolion meithrin a chynradd (hyd at un ar ddeg oed).

Mae'r cynllun yn orfodol i Aelod Wladwriaethau (ar wahân i'r elfennau dewisol) ond mater dewisol i ysgolion unigol neu Awdurdodau Addysg Lleol yw pa un a ydynt am gymryd rhan. Hyd yn oed os yw AALl yn hawlio'r cymhorthdal, mater i'r ysgolion unigol yw penderfynu a ydynt am ddarparu llaeth ac am elwa o'r cymhorthdal. Mae'r penderfyniad terfynol yn gorffwys gyda'r pennaeth neu'r corff llywodraethol.

Mae yna reolau gwahanol ar gyfer y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r llaeth neu'r iogwrt y rhoddir cymhorthdal tuag ato. Gellir ei werthu'n unigol fel llaeth neu iogwrt drwy gydol y dydd neu ei weini gyda phryd, lle telir un pris sy'n cynnwys y pryd a'r llaeth/iogwrt. Os gweinir y llaeth neu'r iogwrt fel rhan o bryd y telir pris penodol amdano, rhaid defnyddio'r cymhorthdal i ostwng pris y pryd. Mae'r cynllun yn pennu rheolau o ran y pris gwerthu uchaf i wneud yn siwr bod mantais y cymhorthdal yn cael ei throsglwyddo i blant ysgol ar gynnyrch a werthir ar ei ben ei hun.

Mae'r cymhorthdal ar gael ledled y DU. Y Bwrdd Ymyrraeth (BY) sy'n gweinyddu'r cynllun ym Mhrydain Fawr.

**Cyflwynir hawliadau i'r BY fel a ganlyn;**

Mae'r AALl yn hawlio ar ran yr ysgolion a gynhelir ganddo.

Cymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi sy'n hawlio ar ran ysgolion annibynnol/ysgolion nas cynhelir.

Gall y sawl sy'n cyflenwi'r cynnyrch llaeth hawlio ar ran ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol drwy gytundeb gyda'r awdurdod lleol dan sylw.

Rhaid hawlio fesul tymor ar yn ôl. (O Ionawr 2001, gall hawlwyr dalgrynnu tymhorau'r ysgol i fisoedd cyfan neu ddewis defnyddio'r un cyfnodau hawlio ag a wnânt ar gyfer y Cynllun Bwyd Lles). Fel arfer mae hawlwyr yn cyflwyno un cais cyfansawdd i'r BY yn ymdrin â'u holl ysgolion ar ddiwedd pob cyfnod. Rhaid i'r

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

hawliadau ddod i law erbyn diwedd y 4ydd mis ar ôl y tymor pryd y dosbarthwyd y cynnyrch. Os mai'r ysgolion (yn hytrach na'r awdurdod lleol) sy'n ysgwyddo'r gost o brynu'r llaeth, mae'n ofynnol i'r hawlydd drosglwyddo'r cymhorthdal a delir gan y GE i'r ysgol dan sylw.

**DS. Os cyflwynir hawliadau'n hwyr fe delir llai o gymhorthdal:**

**Er enghraifft:**

| Tymor (neu gyfnod hawlio) yn gorffen yn | Dyddiad cau (*) i daliad llawn | Dyddiad cau (*) i daliad 95% | Dyddiad cau (*) i daliad 90% |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2001 | 31/08/01 | 30/09/01 | 31/10/01 |
| Mai 2001 | 30/09/01 | 31/10.01 | 31/11/01 |
| Mehefin 2001 | 31/10/01 | 30/11/01 | 31/12/01 |
| Gorffennaf 2001 | 30/11/01 | 31/12/01 | 31/01/02 |

Noder: (*) Y dyddiad cau i'r Bwrdd Ymyrraeth dderbyn yr hawliad.

**DS. Cymhwysir hyn i'r hawliad cyfan, gan gynnwys yr ychwanegiad cenedlaethol, darpariaeth llaeth am ddim y Cynulliad Cenedlaethol a chostau gweinyddol.**

**Ni thelir hawliadau a dderbynnir fwy na chwe mis ar ôl y mis y gorffenna'r tymor ynddo.**

Rhaid i'r BY dalu'r cymhorthdal o fewn 4 mis i dderbyn yr hawliad, onid oes cwestiynau'n codi ynglyn â'r hawliad.

Mae'n ofynnol i'r BY gymryd ystod o gamau goruchwylio i sicrhau bod gweinyddiaeth y Cynllun yn y DU yn gwbl gyson â rheoliadau'r GE sy'n ymdrin â thalu cymhorthdal mewn Aelod Wladwriaethau. Bydd y camau hynny yn cynnwys edrych yn fanwl ar y trywydd archwilio er mwyn manylu ar anfonebau, sicrhau cydymffurfiaeth o ran yr hawl i gymhorthdal, archwiliadau ar y safle a'r defnydd o gynhyrchion llaeth y ceir cymhorthdal tuag atynt.

**Y Ddarpariaeth Llaeth Ysgol am Ddim Ar Hyn o Bryd**

Roedd disgresiwn gan awdurdodau lleol i ddarparu llaeth ysgol am ddim gan dalu am hynny eu hunain tan 1986 pryd y pennodd y Ddeddf Nawdd Cymdeithasol nad oedd hawl mwyach i ddarparu llaeth ysgol am ddim ac eithrio i'r disgyblion hynny mewn teuluoedd a oedd yn derbyn grantiau cymhorthdal incwm.

Mae Adran 512 Deddf Addysg 1996 yn rhoi'r hawl i awdurdodau addysg lleol i ddarparu llaeth, ond lle maent yn gwneud hynny rhaid iddynt godi tâl amdano. Lle

**Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002**
**GTN: 1208 0002**
**Ffacs / Fax: 029 2080 1120**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk**

bo AALlau ac ysgolion yn dewis darparu llaeth, rhaid iddynt ei ddarparu'n rhad ac am ddim i blant y mae eu rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm. Rhaid codi am unrhyw laeth arall a ddarperir, er y caiff AALlau a chyrff llywodraeth godi llai na'r pris llawn. Nid yw'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau eraill (e.e. Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio neu Gredyd Treth i Berson Anabl) yn gymwys i gael llaeth am ddim.

Dim ond costau rhesymol a delir o dan ddarpariaeth llaeth am ddim y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd tâl yn dal i gael ei godi ar y rhiant neu'r gwarcheidwad, ond fe'i telir drwy nawdd gan y Cynulliad Cenedlaethol a weinyddir gan yr AALl, felly yn ymarferol ni fydd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn talu unrhyw beth.

Pan ddarperir llaeth am ddim mewn ysgolion o fewn ardal AALl, mae'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth mewn ysgolion nad oeddynt gynt yn cael eu cynnal â grant yn cael ei ddal yn ganolog gan yr AALl fel arfer, a'r AALl sy'n talu'r costau. Yn achos ysgolion a oedd gynt yn cael eu cynnal â grant, dirprwyir y cyllid iddynt hwy gan ddefnyddio ffactor yn y fformwla gyffredinol a ddefnyddir gan yr AALl i gyllido ysgolion. Yn y naill achos a'r llall, yr AALl sy'n hawlio elfen cymhorthdal y GE ar ran yr ysgolion.

## Y Cynllun Bwyd Lles – Llaeth Meithrin

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol swyddogaethau gweithredol o dan Reoliadau Bwyd Lles 1996 (SI 1434/1996) i weinyddu'r Cynllun Bwyd Lles yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn caniatáu i blant o dan 5 oed dderbyn, yn rhad ac am ddim, 189 ml (1/3 o beint neu 1/5 o litr) o laeth hylifol bob dydd y maent yn mynychu cyfleusterau gofal dydd cymeradwy am 2 awr neu fwy. Os ydych yn gymwys i dderbyn Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE dylech ei hawlio a thynnu swm y cymhorthdal o gost y llaeth yr ydych wedi'i gyflenwi (h.y. ar eich hawliad o dan y Cynllun Bwyd Lles).

Gweinyddir y Cynllun Bwyd Lles yn y DU gan Uned Ad-dalu Bwyd Lles yr Adran Iechyd: Welfare Food Reimbursement Unit, PO Box 31048, London, SW1V 2FE

Ffon: 020 7887 1212
Ffacs: 020 7887 1258

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

**ATODIAD B**

## Yr AALlau sydd wedi Cofrestru gyda'r BY ar hyn o bryd ar gyfer Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE

| Hawlwyr a Gymeradwywyd: ysgolion | gan ddod i rym o | nifer yr a gynhelir |
|---|---|---|
| CBS Blaenau Gwent | 1 Ebrill 1996 (heb hawlio erioed) | 42 |
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | 1 Ebrill 1996 | 71 |
| CBS Caerffili | 1 Ebrill 1996 | 97 |
| Cyngor Sir Caerdydd | 1 Ebrill 1996 | 120 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 1 Ebrill 1996 | 142 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 1 Ebrill 1996 | 62 |
| Cyngor Tref Cei Connah | | 5 |
| CBS Conwy | 1 Ebrill 1996 | 67 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 1 Ebrill 1996 | 57 |
| Cyngor Sir y Fflint | 1 Ebrill 1996 | 6 |
| Gwynedd | 1 Ebrill 1996 | 108 |
| Ynys Môn | 1 Ebrill 1996 | 52 |
| CBS Merthyr Tudful | 1 Ebrill 1996 | 39 |
| CBS Castell-nedd Port Talbot | 1 Ebrill 1996 | 74 |
| CBS Casnewydd | 1 Ebrill 1996 | 62 |
| Cyngor Sir Penfro | 1 Ebrill 1996 | 96 |
| Cyngor Sir Powys | | 91 |
| CBS Rhondda Cynon Taf | 1 Ebrill 1996 | 151 |
| Cyngor Cymuned Sealand | (hawliwyd ddiwethaf gwanwyn 1998) | 1 |

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| CBS Abertawe | 1 Ebrill 1996 | 93 |
| CBS Torfaen | 1 Ebrill 1996 (hawliwyd ddiwethaf gwanwyn 1999) | 44 |
| CBS Bro Morgannwg | 1 Ebrill 1996 | 62 |
| Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1 Ebrill 1996 | 80 |

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

**ATODIAD C**

**Y BWRDD YMYRRAETH**
**PO Box 69**
**Reading**
**RG1 3YD**

Llinell Uniongyrchol (0118) 968 7560
Ffacs Uniongyrchol (0118) 959 0514

Y Rhai Sy'n Hawlio Cymhorthdal Llaeth Ysgol
[Yn Lloegr a'r Alban][yng Nghymru][Cymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi]
cc eraill sydd â diddordeb

7 Rhagfyr 2000

Annwyl Syr/Madam

**DYFODOL CYNLLUN CYMORTHDAL LLAETH YSGOL Y GE**

Yn amodol ar gyhoeddi rheoliad diwygio, penderfynwyd y caiff nawdd y GE ei dorri o 21% ar laeth cyflawn a 5.4% ar laeth hanner sgim gan ddod i rym o'r 1af Ionawr 2001. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb yn y DU i dalu'r gwahaniaeth yn y cyllid a roddir tuag at laeth cyflawn, ac i ychwanegu'r un swm at y nawdd tuag at laeth hanner sgim.

Effaith hyn fydd na cheir **unrhyw newid** yng nghyfradd y cymhorthdal tuag at laeth cyflawn drwyddi draw, ac y ceir **cynnydd** o 28% yn y gyfradd ar gyfer llaeth hanner sgim. Mae hyn yn adlewyrchu'r gyllideb sydd ar gael, argymhelliad yr Adran Iechyd y dylai plant (dros ddwy oed) yfed llaeth hanner sgim, a chanlyniadau'r arolwg Llaeth Ysgol a gynhaliwyd gan y BY ymysg y rhai sy'n hawlio cymhorthdal.

Rhoddir hysbysiad ar wahân ynghylch cyfraddau'r cymhorthdal. Caiff yr union gyfraddau "ychwanegol" eu pennu mewn sterling, gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid a fydd mewn grym ar 1af Ionawr 2001. Mae'n debygol y cânt eu hadolygu'n flynyddol. Y bwriad pendant yw ychwanegu at bob cais. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r sefyllfa gan ystyried y nifer sy'n manteisio ar y nawdd a'r cyfyngiadau ar y gyllideb.

Yn ychwanegol at y newidiadau cyllido a amlinellwyd uchod, mae nifer o newidiadau eraill yn cael eu gwneud i'r cynllun, yn sgîl trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn amodol ar i'r GE gyhoeddi Rheoliad diwygio, bydd y newidiadau i'r cynllun, a ddaw i rym o'r 1af Ionawr 2001, yn cynnwys y canlynol:

- Bydd iogwrt plaen wedi'i wneud o laeth hanner sgim yn gymwys i gael nawdd.

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

Yn ein harolwg, roedd 18% am i iogwrt braster isel fod yn gymwys, ac roedd 41% am gael iogwrt â blas wedi'i ychwanegu. Pwysodd y DU ar y Comisiwn i gynnwys iogwrt â blas wedi'i ychwanegu, ond roedd y Comisiwn o'r farn na ellid cyfiawnhau hynny yn wyneb amodau'r farchnad ar y pryd. Fodd bynnag, ymrwymodd i adolygu'r ystod cynnyrch maes o law.

- Nid yw gwersylloedd gwyliau mwyach yn gymwys.

- Gall hawliadau ymdrin â thymor ysgol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), tymor ysgol wedi'i dalgrynnu i fisoedd cyfan, neu ymdrin â'r un cyfnod â hawliadau o dan y Cynllun Bwyd Lles. Yn ein harolwg, roedd 47% am barhau i hawlio am dymhorau'r ysgol, 20% am hawlio am dymhorau wedi'u talgrynnu i fisoedd llawn, a 27% am ddefnyddio'r un cyfnodau ag o dan y Cynllun Bwyd Lles. Os hoffech fanteisio ar yr hyblygrwydd hwn a pheidio â chyflwyno hawliadau fesul tymor, cofiwch roi gwybod i ni yn ysgrifenedig cyn cyflwyno unrhyw hawliadau pellach. (Nid oes angen i chi roi gwybod i ni os ydych am barhau i hawlio yn ôl tymhorau'r ysgol, fel a wnewch ar hyn o bryd.)

Mae yna nifer o faterion yr ydym yn ceisio eglurhad pellach arnynt gan y Comisiwn. Byddwn yn ysgrifennu eto ar ôl cael cyngor gan y Comisiwn, ac ar ôl i'r Rheoliad gael ei gyhoeddi. Yn y cyfamser, ni fydd agweddau eraill y cynllun yn newid.

[I hawlwyr yng Nghymru a Chymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi yn unig: Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifennu atoch yn fuan ynglyn â'r cynllun i ddarparu llaeth am ddim i blant yng Nghyfnod Allweddol 1 (plant 5-7 oed).]

[I Gymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi yn unig: Gan mai'r gweinyddiaethau datganoledig sy'n darparu'r cyllid "ychwanegol" gwladol yn yr Alban a Chymru, rhaid i ni gael hawliadau ar wahân am ysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, o Dymor y Gwanwyn 2001 ymlaen. Os tybiwch y bydd hyn yn achosi problem, rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda.]

Cofiwch gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglyn â'r llythyr hwn. Mae copïau ohono yn cael eu hanfon at yr Adrannau Amaethyddiaeth, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, yr Adran Iechyd ac eraill sydd â diddordeb.

Ivan Cheary
Rheolwr Cynllun – Y Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol a'r Cynllun Casein mewn Caws
Gweithrediadau Reading "C"

**Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002**
**GTN: 1208 0002**
**Ffacs / Fax: 029 2080 1120**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk**

Llythyr enghreifftiol i AALlau a Chymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi ei anfon at ysgolion **sy'n cymryd rhan** yng Nghynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE.

Cadeirydd y Llywodraethwyr/y Pennaeth

**DARPARU LLAETH YSGOL I DDISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 1**

Llythyr yw hwn i roi gwybod i chi am **laeth am ddim** i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 (5-7 oed) yng Nghymru.

Cynllun o eiddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn. Mae'n mynd â Chynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol presennol y GE, yr ydych eisoes yn gyfarwydd ag ef, gam ymhellach.

Disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yw'r rhai sy'n elwa ohono yn bennaf, ond mae'n cynnwys eraill yn yr un blynyddoedd academaidd h.y. disgyblion sy'n cael addysg gynradd ar wahân i'r rheini sy'n cael addysg feithrin neu addysg yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn golygu bod plentyn yn gymwys drwy gydol y flwyddyn academaidd pryd y caiff ei ben-blwydd yn 5 oed ac mae'n parhau i fod yn gymwys hyd nes iddo ddod i ddiwedd ei addysg cyfnod allweddol 1. Dylai hyn sicrhau trosglwyddiad diwnïad o ddarparu llaeth o dan y Cynllun Bwyd Lles (lle y'i cynigir) i ddarparu llaeth o dan gynllun y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu talu cost y gostyngiad yng ngwerth cymhorthdal y GE yn llawn o 1 Ionawr 2001, a thalu cost resymol darparu llaeth ar gyfer disgyblion cymwys.

Bydd nawdd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer disgyblion cymwys yn talu'r gost a fyddai fel arall yn cael ei cheisio gan rieni fel na fydd rhieni, yn ymarferol, yn talu o gwbl am y llaeth.

Mae angen i chi hysbysu rhieni cyn gynted â phosibl am y trefniadau newydd gogyfer â disgyblion cymwys a gofyn iddynt benderfynu a ydynt am i'w plentyn dderbyn llaeth ysgol o dan gyfundrefn noddi'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd angen i chi benderfynu ar ddyddiad gweithredu synhwyrol i'r trefniadau newydd hyn. Dylai'r dyddiad gweithredu ganiatáu digon o amser i chi ymgynghori â rhieni (gweler y llythyr enghreifftiol sydd ynghlwm) a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol gyda'r awdurdod. O'r dyddiad hwnnw, ni ddylai ysgolion mwyach godi tâl ar rieni/gwarcheidwaid disgyblion cymwys am laeth.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â danfon llaeth i'r

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

ysgol, llai'r elfen gymhorthdal a ddarperir o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE. Bydd yr awdurdod addysg lleol yn parhau i drefnu bod cyflenwadau llaeth, a chynnyrch arall sy'n dderbyniol o dan gynllun y GE, yn cael eu danfon i'ch ysgol ac yn trefnu hefyd fod ffurflenni hawlio yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Ymyrraeth i'w talu. Bydd yn rhaid i ysgolion nodi'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael llaeth o dan gyfundrefn y Cynulliad Cenedlaethol ar wahân i'r rheini sy'n derbyn addysg feithrin neu sydd yng nghyfnod allweddol 2, yn y datganiadau a wnânt i'r awdurdod.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa bod angen gwneud trefniadau o fewn yr ysgol i storio llaeth yn briodol ar y tymheredd cywir.

Dylech gadw mewn cof bod gan rai plant alergedd i laeth gwartheg neu nad yw eu cyrff yn gallu dygymod â lactos. Wrth ymgynghori â rhieni, mae angen i chi ofyn i'r rhieni ddweud wrthych os yw llaeth yn achosi ymateb niweidiol yn eu plant. Dylid cynghori rhieni na ddylai eu plant yfed llaeth gwartheg os yw hynny'n broblem iddynt.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am unrhyw agwedd o ddarparu llaeth yn eich ysgol, cofiwch gysylltu â [] yn y cyfeiriad uchod, rhif ffôn []. Gellir cael mwy o wybodaeth am gynllun y GE a chyfundrefn noddi'r Cynulliad Cenedlaethol gan y Bwrdd Ymyrraeth, rhif ffôn (0118) 968 7602.

Yn gywir

Awdurdod Addysg Lleol

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

Llythyr enghreifftiol i ysgolion **sy'n cymryd rhan** yng Nghynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE ei anfon at rieni disgyblion cyfnod allweddol 1.

**Annwyl Riant/Gwarcheidwad**

**DARPARU LLAETH YSGOL I DDISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 1**

Llythyr yw hwn i'ch hysbysu am **laeth ysgol am ddim** i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 (5-7 oed) yng Nghymru.

Os yw eu rhieni yn dymuno hynny, gall disgyblion sy'n mynychu'r ysgol hon fanteisio ar laeth y rhoddir cymhorthdal tuag ato yn barod o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi pwys mawr ar i blant a phobl ifanc yfed llaeth ac mae wedi penderfynu ysgwyddo costau rhesymol darparu llaeth i ddisgyblion cymwys drwy dalu'r tâl a fyddai fel arall yn cael ei geisio gan rieni. Dylai hyn olygu, yn ymarferol, nad yw rhieni'n talu o gwbl am y llaeth.

Mae'r Corff Llywodraethol yn croesawu hyn ac mae wedi penderfynu cyflwyno cyfundrefn noddi'r Cynulliad Cenedlaethol o [ddechrau'r tymor nesaf].

Mae hyn yn golygu, o [dyddiad], na fydd yn rhaid i rieni dalu unrhyw gyfraniad mewn perthynas â llaeth a ddarperir i blant derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2, o ddechrau'r flwyddyn ysgol y caiff y plant eu pen-blwydd yn 5 oed ynddi hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 1. Os ydych am i'ch plentyn gael llaeth ysgol, mae angen i chi ddychwelyd y ffurflen ar ddiwedd y llythyr hwn i'r ysgol erbyn [dyddiad].

Mae gan rai plant alergedd i laeth gwartheg neu nid yw eu cyrff yn gallu dygymod â lactos. Os oes gan eich plentyn chi alergedd o'r fath neu os yw llaeth yn achosi ymateb niweidiol ynddo/ynddi, ni ddylai yfed llaeth gwartheg.

Llenwch y bonyn ateb isod os gwelwch yn dda a'i ddychwelyd i'r ysgol erbyn [dyddiad]. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cofiwch gysylltu â [] yn yr ysgol.

Yn gywir

Y Pennaeth

**Bonyn Ateb**

Ticiwch fel sy'n briodol.

Hoffwn i'm plentyn [enw] gael llaeth.

**neu** Nid wyf am i'm plentyn [enw] gael llaeth.

**neu** Mae llaeth yn achosi ymateb niweidiol yn fy mhlentyn [enw].

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

Llythyr enghreifftiol i AALlau a Chymdeithas Gorfforedig yr Ysgolion Paratoi ei anfon at ysgolion **nad ydynt yn cymryd rhan** yng Nghynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE.

Cadeirydd y Llywodraeth/y Pennaeth

**DARPARU LLAETH YSGOL I DDISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 1**

Llythyr yw hwn i'ch hysbysu am **laeth am ddim** i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 (5-7 oed) yng Nghymru, fel rhan o Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol presennol y GE.

Mae Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE yn orfodol i bob Aelod Wladwriaeth er mai o'u gwirfodd y mae awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yn cymryd rhan. O fewn Prydain Fawr, mae'r Cynllun yn berthnasol i ddisgyblion o oed cynradd a meithrin ac fe'i gweinyddir gan y Bwrdd Ymyrraeth.

Er bod yr awdurdod lleol hwn wedi'i gofrestru gyda'r Bwrdd Ymyrraeth at ddibenion Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE, mae eich ysgol chi, hyd yma, wedi penderfynu peidio â manteisio ar y Cynllun sy'n gostwng y gost y mae'n rhaid i rieni ei thalu am laeth a chynhyrchion llaeth eraill a ddarperir ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. O dan y Cynllun, ni ofynnir i rieni ar gymhorthdal incwm gyfrannu tuag at gost llaeth yn yr ysgol. Ysgwyddir y gost honno gan yr awdurdod addysg lleol.

Dros ran helaeth o'r flwyddyn ddiwethaf, roedd yna ansicrwydd ynglyn â dyfodol Cynllun y GE. Mae'r GE wedi penderfynu y dylai'r Cynllun barhau, ond ar gyfradd is o gymhorthdal sy'n ei wneud yn llai deniadol i rieni. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi pwys mawr ar i blant a phobl ifanc yfed llaeth ac mae wedi penderfynu talu cost y gostyngiad yng ngwerth cymhorthdal y GE yn llawn. Mae hyn yn golygu y bydd rhieni plant o oed cynradd neu feithrin sy'n dymuno manteisio ar laeth yfed y ceir cymhorthdal tuag ato o dan Gynllun y GE yn gallu gwneud hynny fel o'r blaen.

Ar ben hynny, fis Tachwedd diwethaf cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ymrwymiad i ddarparu llaeth yn yr ysgol ar gyfer disgyblion cymwys yng Nghymru. Disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 fydd yn elwa gan mwyaf, ond bydd eraill yn yr un blynyddoedd academaidd hefyd yn cael eu cynnwys h.y. disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd ar wahân i'r rheini sy'n cael addysg feithrin neu addysg yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn golygu bod plentyn yn gymwys drwy gydol y flwyddyn academaidd pryd y caiff ei ben-blwydd yn 5 oed ac mae'n parhau i fod yn gymwys hyd nes iddo ddod i ddiwedd ei addysg cyfnod allweddol 1. Dylai hyn sicrhau trosglwyddiad diwnïad o ddarparu llaeth o dan y Cynllun Bwyd Lles (lle y'i cynigir) i ddarparu llaeth o dan gynllun y Cynulliad Cenedlaethol.

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â danfon llaeth i'r ysgol, llai'r elfen gymhorthdal a ddarperir o dan Gynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol y GE. Bydd yr awdurdod addysg lleol yn trefnu bod cyflenwadau llaeth a chynnyrch arall sy'n dderbyniol o dan gynllun y GE yn cael eu danfon i'ch ysgol ac yn trefnu hefyd fod ffurflenni hawlio yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Ymyrraeth i'w talu. Bydd yn rhaid i ysgolion nodi'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael llaeth o dan gyfundrefn y Cynulliad Cenedlaethol ar wahân i'r rheini sy'n derbyn addysg feithrin neu sydd yng nghyfnod allweddol 2, yn y datganiadau a wnânt i'r awdurdod.

Gofynnir i chi ystyried pa un y dylid cynnig llaeth i blant yn eich ysgol chi. Cynghorir chi i ymgynghori â'r rheini ynglyn â'r trefniadau newydd a gofyn i rieni disgyblion cymwys a ydynt am i'w plant dderbyn llaeth ysgol o dan gyfundrefn noddi'r Cynulliad Cenedlaethol.

Byddai angen gwneud trefniadau addas i storio llaeth yn briodol ar y tymheredd cywir. Os nad oes cyfleusterau addas yn bod yn eich ysgol, efallai y gallai'r awdurdod negodi gyda chyflenwyr i ddarparu unedau rheweiddio pwrpasol.

Mae gan rai plant alergedd i laeth gwartheg neu nid yw eu cyrff yn gallu dygymod â lactos. Wrth ymgynghori â rhieni (gweler y llythyr enghreifftiol ynghlwm), mae angen i chi ofyn i'r rhieni a yw llaeth gwartheg yn achosi unrhyw ymateb niweidiol yn eu plant. Dylid cynghori rhieni na ddylai eu plant yfed llaeth gwartheg os yw hynny'n broblem iddynt.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am unrhyw agwedd o ddarparu llaeth yn eich ysgol, cofiwch gysylltu â [] yn y cyfeiriad uchod, rhif ffôn []. Gellir cael mwy o wybodaeth hefyd am gynllun yr UE ac am ddarpariaeth llaeth y Cynulliad Cenedlaethol gan y Bwrdd Ymyrraeth yn Reading ar (0118) 968 7602.

Yn gywir

Awdurdod Addysg Lleol

Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002
GTN: 1208 0002
Ffacs / Fax: 029 2080 1120
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk

Llythyr enghreifftiol i **ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan** ei anfon at rieni disgyblion cyfnod allweddol 1.

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

**DARPARU LLAETH YSGOL I DDISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 1**

Llythyr yw hwn i'ch hysbysu bod **llaeth ysgol am ddim** ar gael i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 (5-7 oed) yng Nghymru.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi pwys mawr ar i blant a phobl ifanc yfed llaeth ac mae wedi penderfynu ysgwyddo costau rhesymol darparu llaeth i ddisgyblion cymwys drwy dalu'r tâl a fyddai fel arall yn cael ei geisio gan rieni. Dylai hyn olygu, yn ymarferol, nad yw rhieni'n talu o gwbl am y llaeth.

Y disgyblion sy'n gymwys i gael llaeth ysgol drwy ddarpariaeth y Cynulliad Cenedlaethol yw disgyblion 5-7 oed mewn dosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 – o ddechrau'r flwyddyn ysgol pryd y cânt eu pen-blwydd yn 5 oed hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 1.

Mae'r Corff Llywodraethol yn croesawu'r cynllun hwn, ond cyn bwrw ymlaen hoffai wybod a ydych am i'ch plentyn chi gael llaeth ai peidio.

Mae gan rai plant alergedd i laeth gwartheg neu nid yw eu cyrff yn gallu dygymod â lactos. Os oes gan eich plentyn chi alergedd o'r fath neu os yw llaeth yn achosi ymateb niweidiol ynddo/ynddi, ni ddylai yfed llaeth gwartheg.

Llenwch y bonyn ateb isod os gwelwch yn dda a'i ddychwelyd i'r ysgol erbyn [dyddiad]. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am hyn, cofiwch gysylltu â yn yr ysgol.

Yn gywir

Y Pennaeth

**Bonyn Ateb**

Ticiwch fel sy'n briodol.

Hoffwn i'm plentyn [enw] gael llaeth.

**neu** Nid wyf am i'm plentyn [enw] gael llaeth.

**neu** Mae llaeth yn achosi ymateb niweidiol yn fy mhlentyn [enw].

**Ffon / Tel: 029 2037 Est / Ext: 0002**
**GTN: 1208 0002**
**Ffacs / Fax: 029 2080 1120**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: rory.o'sullivan@wales.gsi.gov.uk**